Pob Swyddog Cyfrifol

Cyhoeddwyd drwy Borth Ofqual a sianelau perthnasol eraill

6 Hydref 2020

Cyf: Datganiad Cydymffurfiaeth 2020

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Mae Cyflwr B2 o'r Amodau Cydnabod Cyffredinol (Ofqual a CCEA Regulation) a'r Amodau Cydnabod Safonol (Cymwysterau Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i chi, a Chadeirydd eich Corff Llywodraethu, gyflwyno datganiad blynyddol ar y cyd yn nodi a yw eich sefydliad yn cydymffurfio'n llawn â'ch Amodau Cydnabod ai peidio.

Ar 30 Mawrth 2020, o ganlyniad i'r tarfu a achoswyd gan Covid-19, cadarnhawyd y byddem atal y gofyniad i chi gyflwyno eich Datganiad Cydymffurfiaeth llawn ar gyfer 2020 hyd nes y rhoddwyd rhybudd pellach.

Yr ydym yn awr yn codi'r ataliad hwn.

Bydd ffenestr Datganiad Cydymffurfiaeth 2020 ar agor o **19 Hydref i 8 Ionawr 2021**. Fodd bynnag, bydd Datganiad Cydymffurfiaeth eleni yn edrych ac yn teimlo'n wahanol i flynyddoedd blaenorol. Rydym yn ymwybodol iawn o'r baich arnoch wrth gwblhau'r Datganiad Cydymffurfiaeth ar hyn o bryd, felly rydym wedi lleihau ei gwmpas drwy ei gwneud yn ofynnol i chi gyflwyno datganiadau yn erbyn nifer cyfyngedig o Amodau yn unig. Bydd gennych hefyd yr opsiwn o ddatgan diffyg cydymffurfio (presennol neu yn y dyfodol) yn erbyn unrhyw Amodau eraill y gallech fod eisoes wedi'u nodi drwy eich prosesau sicrwydd mewnol.

Yn ogystal, rydym wedi mabwysiadu dull 3 gwlad ar gyfer y Datganiad Cydymffurfiaeth eleni gyda Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation. Dim ond un datganiad fydd angen i chi ei gwblhau eleni (mewn dwy ran) gyda'r holl gwestiynau y cytunwyd arnynt gan bob un o'r 3 rheolydd, lle bo hynny'n berthnasol. Bydd eich cyflwyniad yn cael ei rannu â'r rheoleiddwyr yr ydych yn atebol iddynt.

Rydym wedi trafod y newidiadau gyda Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu a'u Grŵp Effaith Rheoleiddiol ac wedi tynnu sylw at y newidiadau mewn gweminar i sefydliadau dyfarnu ym mis Medi.

Newidiadau allweddol

Mae'r newidiadau allweddol wedi'u cadarnhau fel a ganlyn:

1. Mae cwmpas y Datganiad Cydymffurfiaeth wedi ei leihau'n sylweddol eleni, i gydnabod y baich y mae Covid 19 yn ei roi ar bob

sefydliad dyfarnu. Ni fyddwn yn gofyn i chi ddatgan cydymffurfiaeth yn erbyn yr holl Amodau Cydnabod Cyffredinol (ac Amodau Cydnabod Safonol ar gyfer sefydliadau dyfarnu sy'n cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru) nawr neu yn y dyfodol, fel sy'n ofynnol gan Amod B2.

2. Yn hytrach, byddwn yn gofyn am ddatganiadau yn erbyn Amodau sy'n ymwneud â meysydd gweithgarwch penodol mewn dwy ran:

   Rhan 1.

   - **Sefydlogrwydd sefydliadol** (bydd llai o gwestiynau i chi eu hateb os ydych eisoes wedi cwblhau arolwg gennym ni yn gynharach eleni): Amod A5.4
   - Rydym yn ymwybodol y bydd llawer ohonoch yn gwneud penderfyniadau busnes pwysig yng ngoleuni diwedd y Cynllun Cadw Swyddi ddiwedd mis Hydref a'r Cynllun Swyddi Brys newydd wedi hynny. O ystyried bod yr amgylchedd yn newid yn gyflym, rydym yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o'r effaith a gaiff hyn ar eich sefydliad chi a'r farchnad gyfan.

   Rhan 2.

   - **Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau:** Amod H2
   - **Gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag EPA** (lle bo'n berthnasol): Amodau A5.1, A5.2, H1.1 ac EPA 1.1.
   - Bydd gennych hefyd yr opsiwn o ddatgan diffyg cydymffurfio ar hyn o bryd neu yn y dyfodol yn erbyn unrhyw Amodau eraill.

3. Byddwn yn rhoi dolen gyswllt i arolwg i chi ar gyfer pob un o ddwy ran y Datganiad Cydymffurfiaeth. Nodwch y terfynau amser:

   - bydd y ddolen gyntaf ar **sefydlogrwydd sefydliadol** a'r dyddiad cau fydd **1 Rhagfyr 2020**.
   - bydd yr ail ddolen ar gyfer gweithgareddau'n gysylltiedig â **Chraffu ar Safonau Asesu Canolfannau ac EPA** a bydd yn rhaid eu dychwelyd erbyn **8 Ionawr 2020**.
   - Byddwch yn gallu cwblhau dwy ran y Datganiad Cydymffurfiaeth yn gynharach na 1 Rhagfyr, ond rhaid i chi sicrhau bod eich ymatebion i sefydlogrwydd sefydliadol yn ôl erbyn 1 Rhagfyr a CSAC/EPA erbyn 8 Ionawr.

4. Byddwn yn defnyddio llwyfan arolwg ar-lein i chi gyflwyno eich Datganiad Cydymffurfiaeth eleni, o ystyried y newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r cynnwys ac i symleiddio'r broses ar draws y rheoleiddwyr.
5. Byddwn yn darparu copi o'r arolwg yn Microsoft Word i chi ei ddefnyddio yn eich paratoadau, fodd bynnag, dim ond drwy'r arolwg ar-lein y byddwn yn derbyn eich cyflwyniad, nid fel dogfen Word wedi'i chwblhau.

Craffu cyffredinol a chymeradwyo

Am y flwyddyn hon yn unig, ni fyddwn yn gofyn ichi gyflwyno'ch Datganiad Cydymffurfiaeth gyda llofnod ar wahân gan eich Cadeirydd. Fodd bynnag, bydd disgwyl i chi gydymffurfio â gofynion Amod B2.4 o hyd. Cyn cyflwyno eich Datganiad Cydymffurfiaeth, bydd angen i'ch corff llywodraethu gytuno i'r cyflwyniad rydych yn ei wneud. Rhaid ichi ddatgan bod eich datganiad yn gywir a'i fod wedi'i gymeradwyo gennych chi, fel Swyddog Cyfrifol, a Chadeirydd eich Corff Llywodraethu.

Dylech fod yn barod i ddarparu tystiolaeth o waith craffu eich Corff Llywodraethu os gofynnir i chi wneud hynny. Gofynnir i chi ymrwymo i ddarparu hyn cyn dechrau'r arolwg.

Y camau nesaf

Rydym wedi gwneud y newidiadau a amlinellir uchod oherwydd effaith eithriadol pandemig Covid eleni ar y sefydliadau dyfarnu a reoleiddir gennym.

Byddwn yn adolygu ein dull gweithredu ac yn defnyddio hynny i lywio sut y gallem weithredu'r Datganiad Cydymffurfiaeth yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses, cysylltwch â ni drwy ymateb i'r neges hon yn uniongyrchol yn y Porth. Byddwn yn rhannu unrhyw gwestiynau gyda Cymwysterau Cymru a CCEA Regulation.

Yn gywir,

Yun Ding
Cyfarwyddwr Cyswllt Safonau Cyflawni a Pherfformiad VTQ, Ofqual

Denver Davies

Pennaeth Monitro a Chydymffurfiaeth, Cymwysterau Cymru

David Crosbie

Rheolwr y Rhaglen Reoleiddio, CCEA Regulation